

Gwella profiadau o'r system les ar gyfer pobl sy'n gadael gofal

Gwybodaeth am y prosiect

Gyda chefnogaeth Lloyds Bank Foundation, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gweithio gyda phobl ifanc o Leicestershire Cares, Drive Forward a Homes2Inspire i ddeall sut brofiadau y mae pobl sy'n gadael gofal wedi'u cael o'r system les.

Mae pobl sy'n gadael gofal yn wynebu nifer o heriau wrth iddynt baratoi i adael y system ofal a symud tuag at fyw'n annibynnol yn ifanc. Yn aml, mae angen cymorth arnynt i'w helpu i symud i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth nad yw'r system les yn gwneud digon i gefnogi pobl sy'n gadael gofal.

Fel pob person ifanc, amharwyd ar addysg pobl sy'n gadael gofal, a'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael iddynt, oherwydd pandemig COVID-19. Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael cefnogaeth eu teulu, mae pobl sy'n gadael gofal yn aml yn wynebu'r heriau ar eu pennau eu hunain. I lawer, mae hyn wedi arwain at lefelau uwch o unigedd, gorbryder a phryder am eu dyfodol. Wrth i'r adferiad barhau mae'n bwysig bod y system les yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl sy'n gadael gofal er mwyn eu helpu i symud ymlaen mewn addysg a chyflogaeth, a byw bywydau llawn ac egnïol.

Drwy ymgynghoriadau gyda phobl sy'n gadael gofal, ymchwil desg a chyfweiliadau arbenigol, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a phobl ifanc o Leicestershire Cares, Drive Forward a Homes2Inspire wedi nodi chwe newid polisi yr ydym yn credu y byddent yn gwella'r profiadau o'r system les y mae pobl sy'n gadael gofal yn eu cael ac yn eu helpu i gyflawni gwell canlyniadau.

Newidiadau arfaethedig i' bolisïau

1. Penodi arweinydd dynodedig ym mhob Canolfan Byd Gwaith, sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n gadael gofal

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ei gwneud yn ofynnol i bob Canolfan Byd Gwaith sicrhau bod ganddi aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am bobl sy'n gadael gofal, a'u hariannu i wneud hynny. Dylai'r aelod hwn o staff feddu ar wybodaeth am fywydau pobl sy'n gadael gofal a'i fod wedi derbyn hyfforddiant arbenigol – mae'n hanfodol bod ganddo ddealltwriaeth dda o'r heriau y mae pobl sy'n gadael gofal yn aml yn eu hwynebu. Dylai fod yr amser ganddo hefyd i oruchwylio hawliadau pawb sy'n gadael gofal, meithrin perthynas ac ymddiriedaeth, cael dealltwriaeth o'u hamgylchiadau unigol a chynnig cefnogaeth sydd wedi'i theilwra ar eu cyfer. Dylai'r person hwn hefyd fod yr 'unig bwynt cyswllt' ar gyfer tîm gadael gofal yr awdurdod lleol perthnasol. Dylai ei rôl gynnwys meithrin cysylltiadau cryf ar lefel weithredol a strategol er mwyn galluogi'r canlynol:

- Blaengynllunio ar gyfer achosion unigol pobl sy'n gadael gofal wrth iddynt drosglwyddo i'r system les, er mwyn osgoi bylchau yn y cymorth ac 'ymyl y dibyn' y mae pobl sy'n gadael gofal yn aml yn eu disgrifio.
- Cynllun carlam ar gyfer cynnal gwiriadau o hunaniaethau pobl sy'n gadael gofal, a chymeradwyo hawliadau.

- Dull effeithiol o rannu gwybodaeth am unigolion sy'n gadael gofal, er mwyn sicrhau y gellir rhoi cymorth wedi'i deilwra ar waith, er enghraifft cymorth iechyd meddwl.
- Sicrhau bod y Ganolfan Byd Gwaith a thîm gadael gofal yr awdurdod lleol yn darparu cymorth cydgysylltiedig a chynhwysfawr sy'n seiliedig ar bob unigolyn ifanc.

2. Cyflwyno 'nod' ar gyfer pobl sy'n gadael gofal pan fônt yn mynd i'r system les

Mae'r cymorth y mae pobl sy'n gadael gofal yn ei dderbyn yn amrywio'n sylweddol ledled y wlad – mae'n loteri cod post ar hyn o bryd. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gyflwyno 'nod' ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, sy'n ei gwneud yn glir i hyfforddwyr gwaith bod person ifanc wedi bod mewn gofal. Dylai hyn sbarduno arlwy llawn o opsiynau cymorth fel bod pobl sy'n gadael gofal yn deall eu hawliau yn llawn.

Dylid amlinellu'r hawliau sydd gan bobl sy'n gadael gofal o fewn y system les, a hynny mewn canllaw hygyrch – ar wefan neu ar ffurf dogfen argraffedig. Dylai hyn nodi'n glir sut y gallant wneud hawliad, y cymorth y dylent ei dderbyn a chan bwy, eu hopsiynau a'u hawliau, eu cyfrifoldebau a sut mae'r broses gosbi yn gweithio.

3. Dylai pob unigolyn sy'n gadael gofal fod â hawl i Gredyd Cynhwysol ar y gyfradd ar gyfer pobl dros 25 oed o ran

Mae hawlwr Credyd Cynhwysol dros 25 oed yn derbyn tua £16 yr wythnos yn fwy na hawlwr sydd o dan 25 oed ar y sail eu bod yn debygol o fod yn byw yn annibynnol ac yn wynebu mwy o gyfrifoldeb ariannol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gadael gofal yn trosglwyddo i fyw'n annibynnol rhwng 16-18 oed, ac nid ydynt fel arfer yn cael cymorth ariannol na chefnogaeth ehangach gan eu teulu. Dylai pawb sy'n gadael gofal fod â'r hawl i Gredyd Cynhwysol ar y gyfradd ar gyfer pobl dros 25 oed, ni waeth beth yw eu hoedran. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio 24 miliwn y flwyddyn i'r llywodraeth £.

4. Hawl i grant taliadau ymlaen llaw (nid benthyciad)

Gall gymryd 5 wythnos rhwng cyflwyno hawliad Credyd Cynhwysol a chael y taliad cyntaf. Mae llawer o bobl sy'n gadael gofal yn cael trafferth yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig pan fônt yn trosglwyddo o fod mewn gofal i fyw ar eu pennau eu hunain a phan nad ydynt yn cael cymorth ariannol gan y teulu. Mae'n hanfodol eu bod yn cael y cymorth ariannol i oroesi.

Er y gall pobl sy'n gadael gofal ofyn am daliad ymlaen llaw, benthyciad yw hwn ar hyn o bryd, y mae angen i'r person ifanc ei ad-dalu o'i fudd-daliadau yn y dyfodol. Mae hyn yn aml yn arwain at broblemau ad-dalu a dyled. Dylid newid y taliad ymlaen llaw fel nad yw'n ofynnol i bobl sy'n gadael gofal ei ad-dalu. Dylai fod yn grant untro, yn hytrach na benthyciad.

5. Protocol uwchgyfeirio cam wrth gam, clir ar gyfer cyflwyno cosbau

Ni ddylid cosbi unigolyn sy'n gadael gofal ond fel y dewis olaf. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gyhoeddi protocol uwchgyfeirio clir sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu rhoi ar waith cyn cosbi unigolyn sy'n gadael gofal. Dylai gynnwys y canlynol:

- Ni ellir cosbi unigolyn sy'n gadael gofal am dorri cytundeb am y tro cyntaf, a rhaid trefnu cyfarfod rhwng yr hyfforddwr gwaith a'r unigolyn sy'n gadael gofal / cynghorydd personol er mwyn trafod y toriad.

- Ni ellir cosbi unigolyn sy'n gadael gofal os nad yw ei hyfforddwr gwaith Canolfan Byd Gwaith wedi trafod hyn gyda'i gynghorydd personol.
- Cyfrifoldeb yr hyfforddwr gwaith yw deall amgylchiadau'r unigolyn sy'n gadael gofal a darparu cefnogaeth, amserlenni hyfforddiant, a disgwyliadau clir, cyn cyflwyno cosb.

6. Dylid eithrio pawb sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor nes eu bod yn 25 oed

Mae tua 130 o 151 o awdurdodau lleol yn eithrio pobl sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor, neu'n cynnig gostyngiad. Nid yw'r oddeutu 20 sy'n weddill yn gwneud hynny. O ganlyniad, mae pobl sy'n gadael gofal yn wynebu loteri cod post o ran cymorth a chostau. Dylai'r llywodraeth ddysgu o arferion da a gweithredu eithriad cenedlaethol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal hyd at 25 oed, fel nad yw pobl sy'n gadael gofal yn wynebu set wahanol o gostau yn seiliedig ar yr ardal y maent yn digwydd byw ynddi.